Y System Gynllunio a'r Iaith Gymraeg

~

Paratoi Datganiadau ac Asesiadau Cymunedol ac Ieithyddol

Rhys Davies

Cyfarwyddwr, CDN Planning (Wales) Ltd

Polisiau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol

Polisi Cynllunio Cymru a TAN 20 yn nodi yr angen i Ymgeiswyr fel rhan o geisiadau cynllunio i gyflwyno gwybodaeth yn adnabod ac yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar y gymuned ac ar yr iaith Gymraeg ar ffurf unai;

- **'Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol' –** ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau bychainent

- **'Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' -** ar gyfer datblygiadau mwy eu mhaint ac ar gyfer datblygiadau sydd ddim yn cydymffurfio a Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Lleol

cdnplanning

Pryd mae angen Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol

Awdurdodau unai yn ei Cynlluniau Datblygu Lleol neu yn eu Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi ar gyfer pa fath o ddatblygiadau fydd angen 'Datganiadau Cymunedol ac ieithyddol'

Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol

Datblygiad preswyl o 5 uned neu fwy ar dir heb ei ddynodi

Datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth o 1000m2 neu fwy

Datblygiad twristiaeth a fydd yn creu deg neu fwy o unedau gwyliau

Datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol a chyfleoedd cyflogaeth

cdnplanning

Prif gynnwys y datganiad

Cyffredinol-ar gyfer pob math o ddatblygiad

A yw'r datblygiad yn :-

- cydymffurfio â strategaethau/cynlluniau lleol a chenedlaethol
- diwallu anghenion lleol yn y gymuned
- debygol o warchod neu ychwanegu at gyfleusterau cymunedol
- gynaliadwy yn y tymor hir
- debygol o gael cefnogaeth y gymuned leol

Preswyl

A fydd y datblygiad yn:-

- adlewyrchu'r angen am dai yn lleol gan gynnwys tai fforddiadwy
- debyg i ddatblygiadau eraill a gwblhawyd yn y pum mlynedd diwethaf. Os ydynt beth yw'r effaith gynyddol?

Nodweddion Poblogaeth – ar gyfer pob math o ddatblygiad

A fydd y datblygiad yn :-

- denu mewnfudwyr i'r ardal
- cyfrannu at allfudo o'r ardal

Cyflogaeth

A fydd y datblygiad yn :-

- gofyn am sgiliau llafur sydd ar gael yn lleol
- creu swyddi i'r gweithlu lleol
- denu gweithwyr o du allan i'r Sir
- creu cyfleoedd newydd i'r gweithlu
- arwain at fuddsoddiad pellach

Mesuriadau Lliniaru - A fyddai modd lliniaru effeithiau negyddol?

Sut y defnyddir y Datganiad

- Ffurfio rhan o waith cefndirol asesu y cais cynllunio ac ymhlith nifer o ffactorau materol eraill a fydd yn cael eu hystyried

- Yn anaml y bydd cais yn cael ei benderfynu ar sail y wybodaeth yn y Datganiad yn unig

- Yn y rhan fwyaf o achosion disgwylir i'r Datganiad ddangos dylanwad positif ar gymunedau yn enwedig lle mae'r datblygiad yn diwallu anghenion lleol.

- Os oes effeithiau negyddol yn cael ei adnabod gellir os yn berthnasol cynnig mesurau i leihau yr effaith gan gynnwys ymrwymiad Cynllunio ffurfiol rhwng yr ymgeisydd â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Pryd mae angen Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol

Awdurdodau unai yn ei Cynlluniau Datblygu Lleol neu yn eu Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi ar gyfer pa fath o ddatblygiadau fydd angen 'Asesiadau Cymunedol ac Ieithyddol'

Asesiad Effaith Ieithyddol

- Datblygiad tu hwnt i anghenion a dyheadau cymunedau lleol
- ddim yn debygol o gyfrannu at gymunedau mewn modd cynaliadwy
- Ddim ar dir/safle sydd wedi ei ddynodi neu yn groes i bolisïau'r Cynllun Datblygu
- Ar raddfa fawr mewn cymhariaeth â'r galw yn y farchnad leol
- Yn ailadrodd tueddiadau'r gorffennol lle y gwyddys bod effaith andwyol ar gymunedau ac iaith
- Ddim yn rhan o brosiect neu strategaeth leol

Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol

Mae'r fethodoleg yn cynnwys rhestr wirio fel bo'r datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio lleol yn gallu asesu effaith debygol cais datblygu yn erbyn pum dimensiwn ar fywyd y gymuned sef:

Asesiad Effaith Ieithyddol

Poblogaeth – Lefelau a strwythyr y boblogaeth a patrymau allfudo/ mewnfudo

Cyflenwad Seilwaith- Ysgolion lleol, gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau lleol

Ansawdd bywyd – Iechyd, mwynderau, trosedd a trais.

Yr Economi – Busnesau lleol, swyddi, leflau cyflog, amrywiaeth economaidd

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol – Tensiynau a gwrthdaro cymdeithasol a newidiadau i draddodiau a diwylliant Gymraeg

Y broses o ddarparu Asesiad Cymundeol ac leithyddol

i) Sefydlu yr ardal ymchwil

- Ardaloedd Cyngor Cymuned
- Wardiau cymuned
- Amseroedd gyrru

ii) Proffil yr ardal

- Defnyddio ystadegau gan gynnwys Data y Cyfrifiad i lunio:
  - Proffil y boblogaeth
  - Defnydd presennol o'r Iaith Gymraeg
  - I adnabod patrymau allfudo a mewnfudo

iii) Ymgynghoriad

- Holiaduron – adnabod barn y boblogaeth leol
- Grŵpiau ffocws
- Bwrdd yr Iaith a Mentrau Iaith
- Cyfarfodydd cyhoeddus

iv) Dulliau lliniaru

- Cynyddu'r nifer o sefyllfaoedd ble mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio
- Cynyddu satws gweledol yr iaith yn yr ardal
- Gweithio gydag ysgolion i annog y Gymraeg
- Cynnal grwpiau cymunedol sy'n magu ac annog y Gymraeg
- Gwersi Cymraeg ar gael i weithwyr di-Gymraeg

Y fethodoleg a'r system sgorio

- Mae'r Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith yn broses oddrychol a'i nod yw i sefydlu yr effeithiau tebygol sy'n deillio o bolisi neu gais datblygu.

- Rhaid ateb pob cwestiwn gyda sgôr cadarnhaol, negyddol neu niwtral i adlewyrchu effaith dybiedig y datblygiad yn erbyn y pum dimensiwn.

- Rhaid rhoi sgôr rhifol yn ateb i bob cwestiwn ar y rhestr wirio, gyda +1 yn cynrychioli effaith gadarnhaol dybiedig, -1 yn golygu effaith negyddol dybiedig, a 0 yn golygu effaith niwtral dybiedig.

Dull Sgorio	
Cadarnhaol	+1
Negyddol	-1
Niwtral	0

- Rhaid scorio pob criteria yn ogystal â chynnwys sylwebaeth i gefnogi'r sgôr.
- Os yw'n sgôr negyddol, dylid cynnig dulliau i liniaru'r effaith.

Mantais y system sgorio;

- Adnabod pa agweddau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio
- Arwain at y dewis ar y cyfan 'gorau'
- Adnabyddiaeth o effeithiau **cadarnhaol** neu **negyddol** yn cynorthwyo i wneud dewis cynaliadwy

Cyfrifo'r Mynegai Effaith Gyffredinol

1) Cyfrifo sgôr **cadarnhaol, negyddol neu niwtral** ar gyfer yr effeithiau tybiedig sy'n debygol o ddigwydd - Bydd y sgôr yna'n dod yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu cais am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt rheoli datblygu.

2) Mae pob un o'r cwestiynau o fewn pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol yn cynhyrchu ystod o sgoriau a elwir yn **fynegai sylfaenol**.

3) Yna gellir defnyddio'r 18 sgôr hyn i gyfrifo'r **Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol** sef, yn syml, y sgôr cyfartalog ar draws yr holl atebion;

- Mae Sgôr rhwng 0.1 a 1.0 yn dynodi effaith gadarnhaol;
- Mae sgôr o 0 yn dynodi effaith niwtral;
- Mae sgôr rhwng -1.0 a -0.1 yn dynodi effaith negyddol

4) Yna gellir defnyddio'r Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol i gyfrifo **Sgoriau Effaith ar Iaith.** Rhennir y sgoriau hyn yn dri amrywiad - i gynrychioli pa mor bwysig yw'r iaith yn y lleoliad arbennig hwnnw: os tybir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'uchel'; os ystyrir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'canolig'; ac os bernir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'isel'. Cyfrifir y ffigurau hyn yn awtomatig.

Diolch yn fawr

Rhys Davies BA (Anrh) MRTPI,
Cyfarwyddwr
CDN Planning (Wales) Ltd,
1 Connaught House,
Riverside Business Park,
Benarth Road,
Conwy. LL32 8UB

Ffôn - 01492 581 800
Ebost - rhys.davies@cdnplanning.com